**PRIFFYRDD, CYMRU**

# 2011 Rhif 1

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (CYSGOD -Y -COLEG, Y BALA, GWYNEDD) 2011

*Gwnaed* 21 Ionawr 2011

Yn dod i rym 3 Chwefror 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990"), a phob pŵer galluogi arall**(2)**.

**1.** Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Gwynedd;

ystyr "y datblygwr" *("the developer")* yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Cysgod- y-Coleg, Y Bala, Gwynedd ) 2011" ac sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn;

ystyr "Awdurdod y Parc Cenedlaethol" ("*the National Park Authority")* yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**2.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o brifford a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd, gan eu bod wedi eu bodloni bod angen cau'r ffordd i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud fel a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor y Parc Cenedlaethol o dan Ran III o Ddeddf 1990 ar 5 Chwefror 2010 o dan y cyfeirnod NP5/53/496.

**3.** Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd a'r llwybr troed newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir gan ddotwaith ar gyfer y briffordd newydd a chan linellau fertigol ar gyfer y llwybr troed newydd ar y plan a adneuwyd, a'r priffyrdd y gwneir gwelliannau iddynt, a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir gyda

chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, a byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980**(3)**, yn briffyrdd sydd i'w cynnal ar draul y cyhoedd a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

**4.** Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

(a) nes bod y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a ddisgrifir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(b) nes bod y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos ym mha fodd y bwriedir cau'r priffyrdd;

(c) nes bod y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 o'r Gorchymyn hwn wedi dechrau a nes bydd y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r briffordd er mwyn galluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; ac

(ch) nes bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr ac at Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

**5.** Os yn union cyn cau'r darnau o briffyrdd yn unol â'r Gorchymyn hwn y bydd unrhyw offer ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), mae'r ymgymerwyr neu'r darparwyr i barhau i gael yr un hawliau o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

**6.** Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf, yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990 a'i enw yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Cysgod - y- Coleg, Bala, Gwynedd) 2011.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Ionawr 2011

**J COLLINS**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1990 p.8.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** 1980 p.66

## ATODLEN 1

**(bras amcan yw pob mesuriad)**

**Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp a elwir Cysgod-y-Coleg sydd yn y man hiraf yn 51.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 11 o fetrau y mae ei harwynebedd yn 563.6 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 1 ar y plan a adneuwyd.

Rhan o lwybr troed afreolaidd ei siâp y mae ei hyd yn 33.5 o fetrau, sydd yn y man lletaf yn 0.7 metr y mae ei harwynebedd yn 22 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 2 ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**Disgrifiad o'r rhannu newydd o briffordd sydd i'w darparu**

Rhan afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 56.5 o fetrau ac yn y man lletaf yn 13.5 o fetrau ac y mae ei harwynebedd yn 695 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 3 ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 15 o fetrau ac yn y man lletaf yn 32 o fetrau ac y mae ei harwynebedd yn 199 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 4 ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 9.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 5 metr ac y mae ei harwynebedd yn 44 metr sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 5 ar y plan a adneuwyd.

Rhan drionglog ei siâp sydd yn y man hiraf yn 3.5 metr, yn y man lletaf yn 1 metr y mae ei harwynebedd yn 2 fetr sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 6 ar y plan a adneuwyd.

**Disgrifiad o'r rhan newydd o lwybr troed sydd i'w darparu**

Rhan afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 33.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 1.2 metr y mae ei harwynebedd yn 40 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 7 ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w gwella**

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp a elwir Cysgod – y – Coleg sydd yn y man hiraf yn 35.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 11 o fetrau y mae ei harwynebedd yn 359 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 8 ar y plan a adneuwyd.

Rhan o lwybr troed afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 3.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 1 metr y mae ei harwynebedd yn 3 metr sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 9 ar y plan a adneuwyd.

Rhan o briffordd betryal ei siâp wrth gyffordd yr A4212, Heol Ffrydan a Chysgod-y-Coleg sydd yn y man hiraf yn 30 o fetrau, yn y man lletaf yn 2 fetr y mae ei harwynebedd yn 59 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 10 ar y plan a adneuwyd.

Rhan o lwybr troed afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 24 o fetrau, yn y man lletaf yn 0.6 metr y mae ei harwynebedd yn 14.4 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 11 ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

**Y Datblygiad**

Adeiladu 30 o Unedau Gofal Ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig ac ailalinio rhan o'r ffordd ystâd bresennol wrth Gysgod-y-Coleg, y Bala yn Sir Gwynedd.

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (CYSGOD -Y - COLEG, Y BALA, GWYNEDD) 2011

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau rhannau o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, darparu rhannau newydd o briffordd a llwybr troed a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad

hwn a gwella rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yr awdurdodir cau'r briffordd, a hynny yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 5 Chwefror 2010 o dan y cyfeirnod NP5/53/496. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu i ddarnau newydd o briffordd a llwybr troed a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn a'r priffyrdd y gwneir gwelliannau iddynt ddod yn briffyrdd a llwybr troed sydd i'w cynnal ar draul y cyhoedd. Bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os dirymir ef.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell y Bala, Ysgol y Berwyn, y Bala, Gwynedd LL23 7RU yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. bod ei fuddiannau wedi cael eu rhagfarnu'n sylweddol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf;

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 3 Chwefror 2011, wneud cais i'r Uchel Lys am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar Wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://cymru.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/transwales/stopuporders/?lang=cy

**Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**ATODLEN 1**

**(bras amcan yw pob mesuriad)**

**Disgrifiad o'r darnau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp a elwir Cysgod-y-Coleg sydd yn y man hiraf yn 51.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 11 o fetrau y mae ei harwynebedd yn 563.6 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 1 ar y plan a adneuwyd.

Rhan o lwybr troed afreolaidd ei siâp y mae ei hyd yn 33.5 o fetrau, sydd yn y man lletaf yn 0.7 metr y mae ei harwynebedd yn 22 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 2 ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**

**Disgrifiad o'r rhannu newydd o briffordd sydd i'w darparu**

Rhan afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 56.5 o fetrau ac yn y man lletaf yn 13.5 o fetrau ac y mae ei harwynebedd yn 695 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 3 ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 15 o fetrau ac yn y man lletaf yn 32 o fetrau ac y mae ei harwynebedd yn 199 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 4 ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 9.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 5 metr ac y mae ei harwynebedd yn 44 metr sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 5 ar y plan a adneuwyd.

Rhan drionglog ei siâp sydd yn y man hiraf yn 3.5 metr, yn y man lletaf yn 1 metr y mae ei harwynebedd yn 2 fetr sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 6 ar y plan a adneuwyd.

**Disgrifiad o'r rhan newydd o lwybr troed sydd i'w darparu**

Rhan afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 33.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 1.2 metr y mae ei harwynebedd yn 40 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 7 ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**<u>Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w gwella</u>**

Rhan o briffordd afreolaidd ei siâp a elwir Cysgod – y – Coleg sydd yn y man hiraf yn 35.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 11 o fetrau y mae ei harwynebedd yn 359 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 8 ar y plan a adneuwyd.

Rhan o lwybr troed afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 3.5 o fetrau, yn y man lletaf yn 1 metr y mae ei harwynebedd yn 3 metr sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 9 ar y plan a adneuwyd.

Rhan o briffordd betryal ei siâp wrth gyffordd yr A4212, Heol Ffrydan a Chysgod-y-Coleg sydd yn y man hiraf yn 30 o fetrau, yn y man lletaf yn 2 fetr y mae ei harwynebedd yn 59 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 10 ar y plan a adneuwyd.

Rhan o lwybr troed afreolaidd ei siâp sydd yn y man hiraf yn 24 o fetrau, yn y man lletaf yn 0.6 metr y mae ei harwynebedd yn 14.4 o fetrau sgwâr sy'n dwyn y cyfeirnod 11 ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

**<u>Y Datblygiad</u>**

Adeiladu 30 o Unedau Gofal Ychwanegol a chyfleusterau cysylltiedig ac ailalinio rhan o'r ffordd ystâd bresennol wrth Gysgod-y-Coleg, y Bala yn Sir Gwynedd.